2025/2026

# Llyfryn Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol

# Croeso i'ch gwasanaeth Casglu Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol

**Ers 6ed o Ebrill 2024 mae holl wastraff masnachol yng Nghymru yn gael ei wahanu gan fusnesau a'i gyflwyno i'w casglu mewn modd tebyg i gasgliadau ailgylchu o gartrefi.**

## Sut dylwn i gyflwyno fy ngwastraff ac ailgylchu?

**Mae'n rhaid i chi wahanu eich gwastraff ac ailgylchu i bum cynhwysydd ar wahân, un ar gyfer bob un o'r ffrydiau gwastraff ac ailgylchu canlynol:**

- Papur a Chardfwrdd
- Caniau Metel, Plastigion, a Chartonau
- Poteli a Jariau gwydr
- Gwastraff Bwyd
- Gwastraff na ellir ei ailgylchu

**Ar sail faint o wastraff ac ailgylchu rydych chi'n ei gynhyrchu, byddwn yn darparu'r canlynol ichi:**

### Papur a Chardfwrdd




**Biniau olwyn 240ltr, 360ltr, 660ltr neu 1100ltr, neu sach hesian 47ltr neu 90ltr y bydd modd i chi ailddefnyddio ar gyfer ailgylchu Papur a Chardfwrdd.**

### Caniau Metel, Plastigion, a Chartonau (yn cynnwys 'Tetra Pak')




**Biniau olwyn 240ltr, 360ltr, 660ltr neu 1100ltr, neu sach hesian 47ltr neu 90ltr y bydd modd i chi ailddefnyddio ar gyfer ailgylchu Caniau Metel, Plastigion a Chartonau.**

## Poteli a Jariau gwydr Cymysg



**Biniau olwyn 240ltr, 360ltr, neu 660ltr ar gyfer ailgylchu Poteli a Jariau gwydr.**

## Gwastraff Bwyd




**Bin olwyn 240ltr neu cadi 23ltr ar gyfer ailgylchu Gwastraff Bwyd.**

## Gwastraff na ellir ei ailgylchu



**Biniau olwyn 240ltr, 360ltr, 660ltr, neu 1100ltr ar gyfer gweddill eich gwastraff na ellir ei ailgylchu, sef "sbwriel" neu wastraff "gweddilliol". Mae modd i chi hefyd gyflwyno sachau i'w casglu. Ni fyddwn yn darparu'r sachau.**

**Bydd sticeri ar bob bin a sach hesian i nodi yn glir i ba 'ffrwd gwastraff neu ailgylchu' y mae pob un yn perthyn iddo. Dim ond o'r cynwysyddion a restrir yma y byddwn yn casglu'r gwastraff ac ailgylchu. Os hoffech amnewid eich cynwysyddion, archebu cynwysyddion ychwanegol, neu trafod eich opsiynau cysylltwch â ni.**












# Cael eich gwastraff a'ch ailgylchu yn iawn

**Os gwelwch yn dda, peidiwch â:**

- ✗ **Defnyddio unrhyw gynwysyddion na ddarparwyd gan y Cyngor.**
- ✗ **Defnyddio unrhyw sachau plastig clir un tro a allai fod gennych dros ben o wasanaeth ailgylchu cymysg a ddarparwyd yn flaenorol gan y Cyngor.**
- ✗ **Rhoi eitemau ar ben neu wrth ymyl eich cynwysyddion. Oni bai ein bod wedi cytuno, a threfnu o flaen llaw i gasglu unrhyw wastraff ychwanegol.**
- ✗ **Rhoi eitemau mewn bagiau plastig cyn eu rhoi yn eich cynhwysydd ailgylchu. Rhowch eitemau i mewn yn rhydd, heblaw am:**
    - **pan fyddwch yn gwaredu papur sydd wedi bod drwy beiriant llarpio. Mae angen roi'r math yma o wastraff mewn bag plastig clir cyn ei roi yn eich cynhwysydd ar gyfer ailgylchu Papur a Chardfwrdd.**
- ✗ **Cymysgu eich gwastraff ac ailgylchu mewn unrhyw ffordd heblaw am y pump 'ffrwd gwastraff ac ailgylchu' a restrir uchod. Ni fyddwn yn casglu eich ailgylchu os byddwch wedi ei gymysgu neu wedi ei lygru.**

**Cofiwch, os gwelwch yn dda, bod angen:**

- ✓ **Cyflwyno eich gwastraff bwyd i'w gasglu mewn bagiau pydradwy a ddarperir.**
- ✓ **Sicrhau bod caead eich holl gynwysyddion wedi cau yn llwyr.**
- ✓ **Rhoi eich cynwysyddion allan i'w casglu cyn 6yb ar eich diwrnod casglu.**
- ✓ **Os yn berthnasol, casglu eich cynwysyddion o'r pwynt casglu unwaith y maent wedi cael eu gwagio.**

**Ni fydd yna unrhyw newid i'ch diwrnodau casglu. Bydd eich ysbwriel, ailgylchu gwydr a bwyd yn parhau i gael ei gasglu yn wythnosol. Bydd Ailgylchu papur a chardfwrdd yn ogystal ag ailgylchu caniau metel, phlastigion, a chartonau yn cael eu casglu pob pythefnos.**

**Ni fyddwn yn gwagio unrhyw fin ailgylchu sydd gyda'r deunyddiau wedi eu cymysgu neu eu llygru. Cyfrifoldeb y cwsmer fydd i dynnu'r eitemau o'r bin cyn y casgliad nesaf. Ble nad yw hynny yn bosibl, bydd costau ychwanegol am wagio'r bin yn ddyledus.**

# Beth sy'n mynd i ble?
## Papur a Chardfwrdd




**Fflatiwch bocsys cardfwrdd yn unig**

**Byddwn yn derbyn:**

- ✓ Papur (papur glân wedi'i argraffu heb ei argraffu)
- ✓ Papur wedi rhwygo yn fân (rhowch y papur man mewn bag plastig clir cyn ei roi yn y cynhwysydd hwn)
- ✓ Llyfrau clawr meddal
- ✓ Papurau newydd
- ✓ Cylchgronau
- ✓ Catalogau
- ✓ Amlenni (gyda ffenestri neu heb)
- ✓ Cyfeiriaduron ffôn
- ✓ Deunydd pacio o gardfwrdd
- ✓ Bocsys wyau

**Ni fyddwn yn derbyn:**

- ✗ Papur neu gardfwrdd wedi'i lygru â bwyd, olew, saim neu baent
- ✗ Bocsys pitsa tecawê a deunyddiau papur lapio o'r siop sglodion
- ✗ Llyfrau clawr caled
- ✗ Papur wal
- ✗ Papur lapio anrhegion
- ✗ Tyweli papur, hancesi papur, papur cegin, a napcynnau papur
- ✗ Cardiau crafu

# Caniau Metel, Plastigion, a Chartonau (gan gynnwys ‘Tetra Pak’)

plastig, cartonau a metel
plastic, cartons & metal




| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhowch blastig du neu frown yn eich cynhwysydd ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu | Gwagiwch, golchwch, a gwasgwch eitemau plastig a chaniau yn ddiogel | Erosolau gwag yn unig | Ffoil glân yn unig |

**Byddwn yn derbyn:**

- ✓ Poteli plastig glân (llefrith, diodydd, glanedydd a.y.b.)
- ✓ Cynwysyddion bwyd plastig glân (e.e. tybiau menyn/margarîn, potiau iogwrt, tybiau ffrwythau, hambyrddau bwyd nad ydynt yn ddu/brown)
- ✓ Caniau bwyd a diod glân (dur ac alwminiwm)
- ✓ Erosolau (gwag os gwelwch yn dda, dim paent na chemegau niweidiol)
- ✓ Ffoil glân a chartonau ffoil (dim llygredd bwyd neu gemegol)
- ✓ Cartonau cardfwrdd cwyr, fel ‘Tetra Pak’ y math a ddefnyddir ar gyfer sudd ffrwythau, llefrith, a chawl

**Ni fyddwn yn derbyn:**

- ✗ Plastigion caled e.e. teganau, hangeri dillad, a photiau planhigion
- ✗ Eitemau o blastig du neu frown
- ✗ Bagiau plastig e.e. bagiau siopa, bagiau bara a bagiau bwyd wedi’i rewi
- ✗ Ffilm blastig gan gynnwys ‘cling ffilm’, ffilm hambwrdd bwyd a deunydd lapio paled
- ✗ Deunyddiau pacio plastig aml-becyn, fel y rhai sy'n dal creision a diodydd ysgafn
- ✗ Deunydd plastig lapio melysion, bisgedi, a bagiau neu becynnau siocled
- ✗ Pecynnau creision / ffoil â chefn papur, a ‘pouches’ ffoil
- ✗ Pecynnau plastig meddal e.e. bwydydd babanod, a reis microdon
- ✗ Plastig lapio swigod
- ✗ Polystyren
- ✗ Erosolau neu duniau a ddefnyddir ar gyfer dal paent neu gemegau niweidiol
- ✗ Canister nwy a tanwyr nwy gwag

# Gwydr Cymysg




Tynnwch unrhyw gaeadau plastig neu fetel a'u rhoi gyda'ch Caniau Metel a Plastigion i'w hailgylchu

Gwagiwch a golchwch yr eitemau gwydr

**Byddwn yn derbyn:**

- ✓ Poteli gwydr glân (o bob lliw)
- ✓ Jariau gwydr glân (o bob lliw)

**Ni fyddwn yn derbyn:**

- ✗ Paenau gwydr (fel gwydr ffenestri)
- ✗ Drychau
- ✗ Bylbiau golau
- ✗ Llestri / Pyrex (gan gynnwys cerameg a tsieina)

# Gwastraff Bwyd



**Byddwn yn derbyn:**

- ✓ Ffrwythau a llysiau, yn cynnwys creiddiau a chrafion
- ✓ Cig a physgod sydd wedi eu coginio yn cynnwys esgyrn a chregyn
- ✓ Bagiau tê neu goffi
- ✓ Plisgyn wyau
- ✓ Bwyd dros ben neu fwyd wedi mynd heibio'i ddyddiad

**Ni fyddwn yn derbyn:**

- ✗ Deunydd pacio bwyd
- ✗ Hylifau, fel grefi neu lefrith
- ✗ Olewau neu frasterau
- ✗ Baw anifeiliaid

# Gwastraff na ellir ei ailgylchu

(gwastraff gweddilliol / ysbwriel)











Byddwn yn derbyn:

- ✓ Papur neu gardfwrdd wedi'i llygru â bwyd, olew, saim neu baent
- ✓ Bocsys pitsa tecawê a deunyddiau lapio o'r siop sglodion
- ✓ Llyfrau clawr caled
- ✓ Papur wal
- ✓ Papur lapio anrhegion
- ✓ Tyweli papur, hancesi papur, papur cegin, a napcynnau papur
- ✓ Cardiau crafu
- ✓ Plastigion caled e.e. teganau, hangeri dillad, a photiau planhigion
- ✓ Eitemau o blastig du neu frown
- ✓ Bagiau plastig e.e. bagiau siopa, bagiau bara a bagiau bwyd wedi'i rewi
- ✓ Ffilm blastig gan gynnwys 'cling ffilm', ffilm hambwrdd bwyd a deunydd lapio paled
- ✓ Deunyddiau pacio plastig aml-becyn, fel y rhai sy'n dal creision a diodydd ysgafn
- ✓ Deunydd plastig lapio melysion, bisgedi, a bagiau neu becynnau siocled
- ✓ Pecynnau creision / ffoil â chefn papur, a 'pouches' ffoil
- ✓ Pecynnau plastig meddal e.e. bwydydd babanod, a reis microdon
- ✓ Plastig lapio swigod
- ✓ Polystyren
- ✓ Erosolau neu duniau a ddefnyddir ar gyfer dal paent neu nwyddau niweidiol
- ✓ Tanwyr nwy gwag
- ✓ Lludw tân (lludw oer yn unig)

Ni fyddwn yn derbyn:

- ✗ Batris*
- ✗ Canister nwy*
- ✗ Olewau neu frasterau*
- ✗ Gwastraff peryglus neu glinigol*
- ✗ Unrhyw eitemau a nodir yn y rhestrau 'Byddwn yn derbyn'

* Byddwch angen trefnu i gwmni gwastraff arbenigol i waredu rhain.

Os ydych angen mwy o wybodaeth am beth allwch chi a beth na allwch chi ailgylchu yna cysylltwch â ni.

..............................................................................

www.gwynedd.llyw.cymru/gwastraffmasnachol

gwastraffmasnachol@gwynedd.llyw.cymru

Rhif ffôn: 01758 704222